

Cymorth cynnar, gofal a chefnogaeth a  
threfniadau trosglwyddo ar gyfer plant  
anabl  
Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon Taf



## Cyflwyniad

Diben yr arolygiad hwn yw ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau integredig, yn darparu cymorth, gofal a help cynnar ac yn sicrhau bod cyfnod pontio plant anabl a'u teuluoedd yn mynd rhagddo'n ddidrafferth. Mae'r arolygiad yn nodi ymarfer sy'n ysgogi canlyniadau da i blant yn ogystal â meysydd i'w gwella a rhwystrau i gynnydd.

Gwnaethom ganolbwyntio ar brofiad plant anabl a'u teuluoedd wrth iddynt ddod i gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol a chael cyngor a chael eu cyfeirio at wasanaeth cymunedol, cymryd rhan mewn asesiadau a chael gofal a chymorth. Gwnaethom hefyd ystyried y gofal y mae plant anabl yn ei gael a'r ffordd y cafodd pobl ifanc gymorth i bontio i wasanaethau i oedolion.

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 oedd dwyn gwasanaethau cymdeithasol ynghyd a'u moderneiddio. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru i gydweithio i hyrwyddo llesiant y rhai y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn:

- Cefnogi'r bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt i sicrhau eu llesiant.
- Pobl sydd wrth wraidd y system a dylent gael cyfle cyfartal i ddweud pa gymorth y maent yn ei gael.
- Partneriaethau a chydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Dylai gwasanaethau hybu'r broses o atal anghenion rhag gwaethygu a dylent sicrhau bod yr help cywir ar gael ar yr adeg gywir.

'Mae Cymru lachach yn esbonio'r uchelgais o ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, er mwyn i'r gwasanaethau gael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion, gan roi mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach a hyrwyddo llesiant. Mae Cymru lachach yn disgrifio sut y dylid cydlynu dull system gyfan ddi-dor o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arwain yr arolygiad hwn, gyda chymorth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

## Cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Mae AGC yn tynnu sylw'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol at gryfderau a meysydd i'w gwella. Rydym yn disgwyl i gryfderau gael eu cydnabod a'u dathlu a'u defnyddio fel cyfleoedd i adeiladu arnynt. Rydym yn disgwyl i flaenoriaethau ar gyfer gwella arwain at gamau gweithredu penodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn ardal yr awdurdod lleol, yn unol â gofynion deddfwriaeth a chodau arfer da.

| <b>Llesiant</b>                       |   |
|---------------------------------------|---|
| <b>Cryfderau</b>                      | <p>Mae gweledigaeth gref ar gyfer ailfodelu gwasanaethau i blant anabl.</p> <p>Mae Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol yn canolbwyntio ar gryfderau teulu a chyflawni canlyniadau personol.<br/>Mae ymateb effeithiol a gwell wrth 'ddrws ffrynt' gwasanaethau plant.</p> <p>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu ei gymorth seicolegol ei hun i blant ac ymgynghoriadau ag ymarferwyr.</p> <p>Dangosodd y ganolfan ddiogelu amlasiantaethol dystiolaeth dda o drefniadau gweithio ar y cyd.</p> <p>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn adolygu taliadau uniongyrchol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael dewis a chymorth dros dro tra bod cynorthwyr personol yn cael eu recriwtio.</p> |
| <b>Blaenoriaethau ar gyfer gwella</b> | <p>Dylid canolbwyntio'n fwy ar gryfderau, llais y plentyn a chanlyniadau clir ar gyfer asesu, yn ogystal â gofal a chymorth o fewn y Tîm Plant Anabl.</p> <p>Dylai'r rheolwyr wella'r gwaith o oruchwylio'r Tîm Plant Anabl yn effeithiol a sicrhau ansawdd o fewn y tîm hwnnw.</p> <p>Dylid sicrhau mwy o ddealltwriaeth a gwell ymarfer mewn perthynas â chynnal asesiadau o ofalwyr sy'n rhieni.</p> <p>Dylai fod mwy o gymorth i frodyr a chwirydd plant anabl.</p>   |
| <b>Pobl – llais a dewis</b>           |   |
| <b>Cryfderau</b>                      | <p>Mae'r staff yn gadarnhaol ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan gydweithwyr a rheolwyr.</p>   |
| <b>Blaenoriaethau ar gyfer gwella</b> | <p>Mae angen hyrwyddo llais y plentyn yn fwy ym mhob agwedd ar wasanaethau i blant anabl, gan gynnwys eiriolaeth.</p>   |

|                                       |  |
|---------------------------------------|--|
|                                       | <p>Dylai ymarferwyr yn y Tîm Plant Anabl ymgymryd â mwy o hyfforddiant arbenigol.</p> <p>Mae angen ailsefydlu'r gofrestr anabl.</p>  |
| <b>Partneriaethau ac integreiddio</b> |  |
| <b>Cryfderau</b>                      | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn datblygu gwasanaeth llesiant emosiynol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.  |
| <b>Blaenoriaethau ar gyfer gwella</b> | <p>Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ganolbwyntio eu hymdrechion ar gyflawni dull gweithredu mwy strategol er budd dinasyddion.</p> <p>Dylid gwerthuso darpariaeth bresennol y gwasanaeth ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd a dylid cwblhau'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn erbyn anghenion a ragwelir yn y dyfodol. Byddai'r wybodaeth hon yn llywio'r gwaith o wella prosesau comisiynu ar y cyd.</p> <p>Dylid datrys y mater o ariannu gofal parhaus.<br/>Dylid ystyried y manteision i bobl ifanc anabl os byddant yn ymwneud â gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau oedolion a Chynghorwyr Personol ar gam cynharach.</p> |
| <b>Atal ac ymyrraeth gynnar</b>       |  |
| <b>Cryfderau</b>                      | <p>Mae Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol yn wasanaeth effeithiol a gwerthfawr.</p> <p>Ceir dealltwriaeth o'r model cymdeithasol o anabledd a bwriad i wella cydraddoldeb o ran mynediad i blant anabl.</p>  |
| <b>Blaenoriaethau ar gyfer gwella</b> | <p>Mae'n rhaid i bob asesiad fod yn ddigon trylwyr (cymesur) a dadansoddi angen (ac ni ddylid ei ystyried yn broses i sicrhau adnodd penodol yn unig).</p> <p>Datblygu dulliau amgen o gynnig seibiant/seibiannau byr.</p>   |

## 1. Llesiant

**Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;**

- Mae plant anabl a theuluoedd yn cael y gofal a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir
- Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed

**Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:**

- 1.1. O'r 84 o arolygon a gwblhawyd, roedd tri chwarter y rhieni yr oedd eu plentyn anabl yn destun asesiad yn y flwyddyn ddiwethaf, yn teimlo bod yr ymarferydd wedi gwrandao ar eu barn. Roedd dau draean o'r rhieni yn teimlo bod y gweithiwr cymdeithasol yn adnabod eu plentyn yn dda ac yn cyfathrebu'n dda â nhw. Dywedodd y rhieni wrthym am ymarferwyr yn gwneud cryn ymdrech i ymgysylltu â'r plant; ond disgrifiodd rhieni eraill ymarferwyr a oedd yn gwneud llai o ymdrech i weld eu plentyn neu gyfathrebu â'r plentyn mewn ffordd ystyrlon.
- 1.2. Dywedodd ychydig yn llai na hanner y rhieni a gwblhaodd ein holiadur, ac a oedd wedi gofyn am gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fod yr ymateb yn ddefnyddiol, ac roedd y gweddill o'r farn bod yr ymateb yn eithaf defnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol. Soniodd llawer o rieni am ddryswch neu gamddealltwriaeth o ran y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Tîm Plant Anabl. Nid oedd rhai rhieni yn ymwybodol o'r ffaith nad oedd IQ yn rhan o'r meini prawf cymhwysedd mwyach neu nid oeddent yn gwybod pam nad oedd eu plentyn yn gymwys i gael gwasanaethau statudol. Nid oedd rhai o'r rhieni yn fodlon ar y ffaith nad oedd gan eu plentyn gysylltiad â'r tîm mwyach.

**Tystiolaeth ar lefel weithredol:**

- 1.3. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau achos a welsom yn dangos tystiolaeth o asesiadau trylwyr o blant anabl yng nghyd-destun eu teuluoedd, gan nodi cryfderau a chanlyniadau personol roedd y plentyn a'r rhieni am eu cyflawni. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym nad oedd pob ymarferydd, yn eu barn nhw, yn hyderus i nodi canlyniadau llesiant drwy siarad â'r bobl am yr hyn sy'n bwysig iddynt ac, o ganlyniad, nid oedd asesiadau'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r plentyn yn aml. Mae'r dull hwn yn hanfodol o ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 1.4. Gwelsom lawer o enghreifftiau lle roedd diffyg tystiolaeth o ymgysylltu'n effeithiol â phlant yn y cyfnod asesu er mwyn cadarnhau eu dymuniadau. Nododd uwch-reolwr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf nad oedd llais y plentyn yn aml yn cael ei gynnwys mewn asesiadau. Mae dod i adnabod plant anabl yn aml yn cynnwys sgiliau arbenigol y dylem ddisgwyl i ymarferwyr mewn tîm plant anabl feddu arnynt. Roeddem yn

fwy hyderus bod asesiadau yn adlewyrchu barn rhieni, er nad oedd y rhain yn aml yn dangos tystiolaeth o asesiad trylwyr o gryfderau ac adnoddau yn y rhwydwaith teuluol, y gallu o ran rhianta a phwysau. Nid oedd ymarferwyr o reidrwydd yn siarad â brodyr a chwiorydd y plentyn anabl fel rhan o'r broses asesu.

- 1.5. Roedd uwch-reolwyr yn ymwybodol bod angen gwneud gwelliannau i lawer o gynlluniau gofal a chymorth. Yn aml, canolbwyntiwyd ar y gwasanaeth cymorth a ddarperir, yn hytrach nag adlewyrchu'r canlyniadau personol yr oedd y plentyn a'r teulu am eu cyflawni. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd adolygu cynnydd yn effeithiol. Nid oedd ymarferwyr bob amser yn glir am yr hyn a ddylai gael ei gynnwys mewn cynlluniau gofal a chymorth. Prin oedd y dystiolaeth o gynllunio wrth gefn.
- 1.6. Nid oedd cyfarfodydd adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys darparwr y gwasanaeth cymorth fel mater o drefn, felly gellid colli gwybodaeth werthfawr am gynnydd neu broblemau. Nid oedd adolygiadau yn cael eu cwblhau'n amserol, a oedd yn golygu na allem fod yn hyderus bod y gwasanaethau cymorth yn parhau i fod yn briodol os oedd amgylchiadau'r teulu wedi newid.
- 1.7. Roedd pob tîm wedi datblygu ei gynllun ar gyfer sicrhau ansawdd yn ddiweddar. Roedd y broses o roi'r cynlluniau hyn ar waith yn fwy datblygedig yn y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol, sy'n rhan o wasanaeth cymorth cynnar Teuluoedd Gwydn. Mae hyfforddiant pellach ar hanfodion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a phrosesau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol yn faes blaenoriaeth i'w wella yn y Tîm Plant Anabl.
- 1.8. Roedd yr ymarferwyr yn y Tîm Plant Anabl weithiau'n cael gafael ar yr adnoddau yn ysgol y plentyn er mwyn helpu i gyfathrebu â phlant unigol neu'n dibynnu ar gymorth gan ymarferwyr gwasanaethau oedolion. O ystyried y pwysau ar dimau oedolion, dylai uwch-reolwyr sicrhau bod y broses hon yn effeithlon ac yn gweithio er budd y plentyn sy'n meithrin cydberthynas ymddiriedus â'i weithiwr cymdeithasol.
- 1.9. Roedd plant anabl a oedd yn cael 'cymorth cynnar' gan y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol yn cael budd o gynlluniau clir sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau unigol ac yn adlewyrchu cryfderau presennol y teulu. Roeddem yn hyderus bod y gwasanaeth hwn yn gweithredu o fewn egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 1.10. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwblhau ychydig iawn o asesiadau o anghenion y rhieni fel gofalwyr plant anabl. Roedd hyn yn arbennig o bwysig lle nad oedd asesiadau llawer o'r plant yn cynnwys asesiadau trylwyr o allu rhianta a phwysau ar rieni. Nid oedd ymarferwyr yn cynnig asesiad gofalwyr fel mater o drefn a dywedodd rhai ymarferwyr wrthym nad oeddent yn hyderus wrth ymgymryd â'r asesiadau hyn. Mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sicrhau bod pob

ymarferydd yn meddu ar y sgiliau a'r profiad perthnasol o ran cwblhau'r asesiadau gofynnol.

- 1.11. Roedd uwch-reolwyr wedi sefydlu grŵp gorchwyl er mwyn adolygu ymarfer a ddylai godi ymwybyddiaeth o hawliau cyfreithiol gofalwyr. Mae'n rhaid i uwch-reolwyr barhau i gyfleu'r strategaeth a'r dull gweithredu os ydynt am i agweddau tuag at asesiadau gofalwyr ddod yn fwy cadarnhaol.
- 1.12. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i ofalwyr, a oedd yn cynnwys gofalwyr sy'n rhieni, ac roedd ganddynt weithwyr dynodedig i gefnogi gofalwyr. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu bod yn hyderus bod rhieni plant anabl a oedd o dan gryn dipyn o straen yn cael eu nodi a'u cefnogi drwy'r gweithgareddau hyn.
- 1.13. Roedd 90 y cant o'r rhieni a arolygwyd, yr oedd ganddynt blant eraill yn ogystal â'u plentyn anabl, o'r farn bod angen cymorth ar frodyr a chwiorydd o ganlyniad i effaith cael brawd neu chwaer anabl. Gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gydnabod hyn cryn dipyn o amser yn ôl a gwnaeth sicrhau cyllid byrdymor i ddarparu cymorth i frodyr a chwiorydd. Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth wedi ymestyn ac roedd nifer o blant a oedd yn destun cynllun cymorth yn aros am gymorth am ryw ddwy neu dair blynedd. Am fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi nodi bod angen cymorth ar y plant hyn, mae'n rhaid i ni dybio bod y diffyg gwasanaethau a ddarperir wedi cael effaith negyddol ar eu llesiant. Rydym ar ddeall bod y rheolwyr wedi ystyried comisiynu rhagor o wasanaethau cymorth.
- 1.14. Roedd diffyg eglurder ynghylch ymarfer rheoli achosion a chofnodi ar gyfer gofalwyr sy'n rhieni a brodyr a chwiorydd plant anabl. Gall hyn arwain at ansicrwydd, atal ymyriadau priodol a chofnodion gwael. Dylai uwch-reolwyr ddatrys y mater hwn fel mater o flaenoriaeth.
- 1.15. Mae'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol a'r Tîm Plant Anabl wedi gosod ymarferwyr wrth 'ddrws ffrynt' gwasanaethau plant yn ddiweddar, ynghyd â gweithiwr gofalwyr ifanc. Y bwriad oedd darparu arbenigedd ar anabledau cyn gynted â phosibl. Gwnaed newidiadau diweddar iawn i wella'r cymorth i'r staff sy'n ateb galwadau gan weithwyr proffesiynol a theuluoedd. Cawsom sicrwydd bod galwadau'n cael eu hateb yn brydlon a bod ymatebion cychwynnol a'r broses o wneud penderfyniadau yn amserol mewn perthynas â gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- 1.16. Nid oedd yr holl wybodaeth wrth law am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i bobl ag anabledau penodol. Gallai hyn olygu nad oes gan y bobl lawer o wybodaeth am adnoddau perthnasol i'w cefnogi i wneud penderfyniadau, a bod mynediad at yr adnoddau hyn yn gyfyngedig. Roedd y rheolwyr yn credu bod y staff yn meithrin eu gwybodaeth eu hunain am y gwasanaethau cymunedol i gyfeirio pob atynt a'u bod am



sicrhau bod y staff yn fwy ymwybodol o wefan adnodd Dewis. Ni chawsom fawr ddim adborth penodol gan rieni am y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- 1.17. Nid oedd y tîm cymorth cymunedol o fewn y Tîm Plant Anabl sy'n darparu cymorth uniongyrchol i gefnogi plant yn gallu ateb y galw am ei wasanaethau, a hynny am fod nifer y staff wedi haneru o ganlyniad i'r cynlluniau i ailfodelu'r gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth yn newid o gynnig cymorth hirdymor i gynnig cymorth byrdymor. Dylai'r uwch-reolwyr sicrhau y caiff anghenion eu diwallu drwy ddulliau eraill a dylai ymarferwyr a theuluoedd ddeall yn glir pa gymorth sydd ar gael.
- 1.18. Roedd gweithwyr proffesiynol yn fodlon ar effeithiolrwydd dulliau diogelu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac roeddent o'r farn bod trefniadau'r ganolfan ddiogelu amlasiantaethol yn gweithio'n dda. Dywedodd cynrychiolwyr ieched ac addysg wrthym nad oeddent bob amser yn cael adborth ar atgyfeiriadau a wnaed a dylid unioni hyn.
- 1.19. Roedd yr ymchwiliadau diogelu y gwnaethom eu hadolygu yn cydymffurfio â chanllawiau, er ein bod wedi nodi cyfleoedd i wella ymarfer mewn nifer bach o achosion. Gwnaeth rhai gweithwyr ieched ac addysg proffesiynol gwestiynu'r ffaith bod gweithiwr cymdeithasol yn y Tîm Plant Anabl yn ymgymryd ag ymchwiliadau diogelu pan oedd y plant yn hysbys i'r tîm. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod yr ymarfer hwn, sy'n ymarfer arferol mewn awdurdodau lleol eraill, yn cael effaith andwyol. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddechrau trafodaeth â phartneriaid er mwyn sicrhau dealltwriaeth a hyder o ran y dull gweithredu hwn. Roedd nifer yr atgyfeiriadau diogelu ar gyfer plant anabl yn is na'r hyn roedd yr uwch-reolwyr yn ei ddisgwyl a dylai hwn fod yn faes i ymchwilio'n iddo'n barhaus.

### **Tystiolaeth ar lefel strategol:**

- 1.20. Roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau plant anabl. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i'r 'drws ffrynt' a'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Arbennig, ond ddim eto i'r Tîm Plant Anabl. Roedd newidiadau eraill wedi'u cynllunio a bydd cymhwysedd ar gyfer y Tîm Plant Anabl yn seiliedig ar effaith anghenion gofal cymhleth yn hytrach na diagnosis o unrhyw anabled neu gyflwr meddygol. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y plant y mae angen cymorth arnynt gydag anghenion o'r fath, sy'n aml yn cynnwys anghenion ieched meddwl. Bydd y newidiadau hyn yn sylweddol a bydd angen cynllun cyfathrebu cynhwysfawr i sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth glir, hawdd ei deall a'u bod yn gwybod sut i gael gafael ar help, gofal a chymorth yn gynnar.
- 1.21. Roedd y cyfarwyddwr a'r prif weithredwr wedi cael cefnogaeth y cyngor i'r newidiadau a wnaed hyd yma. Roedd y swyddogaeth graffu yn y cyngor yn amlwg ac roedd cynigion y cyfarwyddwr ar gyfer y camau nesaf yn destun arolygiad yn briodol.

- 1.22. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi bod yn rhagweithiol o ran datblygu ei adnodd seicoleg ei hun mewn ymateb i'r diffyg a nodwyd mewn perthynas â'r adnoddau seicolegol a therapiwtig a oedd ar gael drwy'r bwrdd iechyd. Roedd cynlluniau i ddatblygu'r adnoddau hyn ymhellach er mwyn cefnogi'r nifer cynyddol o blant, gan gynnwys plant anabl, sydd ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl.
- 1.23. Ar adeg yr arolygiad, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cefnogi 152 o deuluoedd gyda phlentyn anabl drwy daliadau uniongyrchol, a ddylai ddarparu 'dewis, llais a rheolaeth' i rieni sydd am drefnu eu cymorth eu hunain. Nodwyd problemau o ran recriwtio cynorthwyr personol â'r sgiliau angenrheidiol a oedd yn golygu bod teuluoedd ag anghenion asesedig o ran cymorth yn aml yn aros am gyfnodau hir i hyn ddechrau. Nid oeddem yn hyderus bod teuluoedd yn cael cynnig opsiynau eraill ar gyfer cymorth, ochr yn ochr â thaliadau uniongyrchol.
- 1.24. Dylai'r broses asesu ystyried yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'i rieni cyn ystyried a yw taliadau uniongyrchol, er enghraifft, yn ffordd o gyflawni hyn. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn adolygu ei bolisi ar daliadau uniongyrchol a dylai hyn sicrhau bod barn y plentyn yn cael ei hystyried, ar wahân i farn y rhieni. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod asesiadau risg bob amser yn cael eu cynnal cyn penderfynu defnyddio taliadau uniongyrchol, ond nododd rheolwyr tîm nad oedd hyn yn wir bob amser. Mae'n rhaid cymhwyso polisïau a phrosesau mewn ffordd gadarn wrth ddarparu'n weithredol.
- 1.25. Roedd uwch-reolwyr yn ymwybodol bod gormod o blant anabl sydd wedi cael gofal yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal. Er bod pob un ond un plentyn wedi cael ei leoli mewn awdurdodau lleol cyfagos, gall hyd yn oed pellteroedd cymharol fach gael effaith ar gyswllt â theulu a ffrindiau a newid ysgol. Mae problem genedlaethol o ran ansawdd lleoliadau preswyl i blant ac mae hyn yn peri'r broblem fwyaf i blant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- 1.26. Roedd uwch-reolwyr ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn hyderus bod trefniadau diogelu rhanbarthol yn gadarn. Roedd trefniadau newydd y bwrdd iechyd a'r trefniadau rhanbarthol wedi arwain at adolygiadau o bolisïau a gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes. Ystyriwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bartner cryf ac ymrwymedig i'r trefniadau diogelu rhanbarthol.

## 2. Pobl – llais a dewis

**Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;**

- **Dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n sicrhau bod gan blant anabl a'u teuluoedd lais, dewis gwybodus a rheolaeth dros eu bywydau**
- **Mae arweinwyr yn effeithiol o ran sicrhau bod ganddynt ddigon o weithwyr hyderus a medrus i hyrwyddo llesiant plant anabl**

### Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 2.1. Gwnaethom siarad â grŵp o bobl ifanc anabl a ddywedodd wrthym pa mor bwysig ydoedd eu bod yn teimlo bod eu gweithiwr cymdeithasol yn ceisio dod i'w hadnabod. Er bod gweithwyr proffesiynol wedi darllen ffeil y person ifanc, dywedodd un person ifanc wrthym *it doesn't make them really know you or know what it feels like to be you*'. Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i lais y plentyn yn y rhan fwyaf o ffeiliau achos a welsom a gallai hyn gael effaith sylweddol ar y canlyniadau i'r plentyn. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei flaenoriaethu a'i adlewyrchu yn y cofnodion.
- 2.2. Roedd y mwyafrif helaeth o ymarferwyr a holwyd gennym yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr, cydweithwyr ac Adnoddau Dynol. Nododd y rhan fwyaf (80%) eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi gwaith. Roedd y mwyafrif o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gan reolwr llinell. Roedd y broses o wneud penderfyniadau ar achos yn cael ei chofnodi ar ffeiliau'r plant. Roedd polisi newydd ar waith er mwyn sicrhau bod trafodaethau goruchwylio'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau i blant, yn hytrach na phrosesau ac roeddem yn gallu gweld bod pethau'n dechrau newid yn rhai o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu.

### Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 2.3. Roedd yr ymateb i atgyfeiriadau ar gyfer asesu yn brydlon. Oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau, roedd rheolwyr wedi cyflwyno ymarfer o 'ddad-ddyrannu' plant, lle roedd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan wasanaeth cymorth, ond gwnaethant aros yn agored ar y system ddata, ac roeddent yn weladwy ar ddangosfwrdd rheolwr y tîm. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod hyn yn cael effaith andwyol ar y plant, er bod uwch-reolwyr yn glir y byddant yn rhoi'r gorau i'r ymarfer hwn pan fyddai adnoddau yn caniatáu iddynt wneud hynny. Roedd system flaenoriaethu ar waith ar gyfer y plant a oedd yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad therapi galwedigaethol a chawsom sicrwydd yr ymatebir i atgyfeiriadau brys o fewn pum diwrnod.
- 2.4. Dywedodd swyddogion adolygu annibynnol wrthym fod lle i wella eu hymgyngoriad â phlant anabl sydd wedi cael gofal cyn y cyfarfodydd adolygu er mwyn sicrhau bod barn y plant yn ganolog i'r ymgynghoriad hwnnw. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sicrhau ei fod

yn nodi disgwyliadau clir i swyddogion adolygu annibynnol, yn unol â chanllawiau arfer da cenedlaethol.

- 2.5. Newidiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei ddarparwr eiriolaeth yn gynharach eleni, a chafodd y broses o newid o un darparwr i ddarparwr arall ei rheoli er mwyn lleihau'r effaith ar blant a oedd yn cael cymorth eiriolaeth ar y pryd. Nid oeddem yn gallu bod yn hyderus bod yr holl blant a ddylai gael eu hatgyfeirio ar gyfer gwasanaeth eirioli yn cael eu hatgyfeirio (y 'cynnig rhagweithiol') ac efallai bod gan y bobl ifanc anabl anghenion penodol am eiriolaeth er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd unrhyw blentyn anabl wedi cael ei atgyfeirio ar gyfer eiriolaeth ers dechrau'r contract ym mis Mai 2019. Nododd ymarferwyr y Tîm Plant Anabl eu bod wedi gwneud atgyfeiriadau, ond nad oeddem yn gallu cadarnhau hyn am nad oedd gwybodaeth adrodd yn nodi plant anabl. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sicrhau bod plant anabl yn cael eu hatgyfeirio'n briodol at wasanaethau eirioli a dylai sicrhau bod mesurau ar waith i ganiatáu prosesau penodol ar gyfer monitro gwasanaethau eirioli i blant anabl.
- 2.6. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwneud y cynnig rhagweithiol ar gyfer cyfathrebu yn Gymraeg, o'r 'drws ffrynt' hyd at y Tîm Plant Anabl, ac roedd yn gwybod pa rai o'i staff a oedd yn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Nid oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y sampl o ffeiliau achos a welsom ac felly nid oeddem yn gallu profi hyn yn ystod yr arolygiad.
- 2.7. Roedd system rheoli cwynion gadarn a rhagweithiol ar waith ar draws gwasanaethau plant ac roedd y mwyafrif helaeth o gwynion yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl. Nid oedd fawr ddim cwynion wedi cael eu gwneud gan blant anabl na'u rhieni, ac nid oedd unrhyw themâu wedi dod i'r amlwg dros y 12 mis diwethaf.
- 2.8. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Arbennig wedi cael amrywiaeth eang o hyfforddiant ar ddulliau ymddygiadol a dulliau therapiwtig dros y flwyddyn flaenorol. Roedd ymarferwyr yn y Tîm Plant Anabl wedi mynychu rhywfaint o'r hyfforddiant hwn, ond dywedwyd wrthym fod angen hyfforddiant arnynt i wella eu sgiliau cyfathrebu â phlant sydd ag anabledau dysgu a synhwyrdd. Gwnaethant ddisgrifio cymhorthion cyfathrebu nad oeddent ar gael iddynt. Gwnaethant hefyd nodi iechyd meddwl fel maes yr oedd angen rhagor o hyfforddiant ynddo ac nid oedd unrhyw ymarferydd yn y Tîm Plant Anabl yn deall iaith Arwyddion Prydain. Roedd rheolwyr yn hyderus y gallent ddibynnu ar gydweithwyr eraill am gymorth, ond efallai y byddai hyn yn golygu na fydd y plentyn yn cael ymarferydd cyson. Mae rheolwyr wedi nodi hyfforddiant fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae cyfrifoldeb penodol i ddarparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer plant byddar a dall, ac roedd rheolwyr yn hyderus eu bod yn comisiynu arbenigedd gan asiantaeth genedlaethol.

## Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 2.9. Nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cynnal cofrestr anabledd ers newid i'r system rheoli ffeiliau achos newydd. Mae'r gofrestr yn darparu'r wybodaeth er mwyn helpu'r awdurdod lleol i gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant anabl. Mae hyn yn ofynnol ac mae uwch-reolwyr yn ymwybodol bod angen iddynt ailgyflwyno hyn.
- 2.10. Gellid gwneud mwy i ymgynghori â theuluoedd ynglŷn â'r cymorth maent yn ei gael. Dywedodd traean o'r rhieni a holwyd gennym eu bod yn cofio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gofyn iddynt am eu barn, ac mae'n galonogol bod y mwyafrif yn hyderus bod eu barn wedi cael dylanwad. Roedd y cyfarwyddwr yn ymwybodol y byddai angen ymgynghori'n fwy â'r plant anabl a'u teuluoedd ar gam olaf y gwaith o ailfodelu gwasanaethau plant anabl.

## 3. Partneriaethau ac integreiddio

### **Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;**

- **Mae gan yr awdurdod lleol bartneriaethau effeithiol a threfniadau integredig sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd**
- **Mae cynlluniau ar gyfer pobl ifanc anabl sy'n gadael gofal yn seiliedig ar eu cryfderau, yn cynnwys y person ifanc yn llawn ac yn cynyddu eu potensial i fod yn annibynnol**

## Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 3.1. Roedd llai na hanner y rhieni a holwyd o'r farn bod y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth addysg a'r gwasanaethau iechyd wedi cydweithio'n dda er mwyn helpu eu plentyn i gael yr addysg orau. Roedd rheolwyr gwaith cymdeithasol ac addysg yn fodlon bod gweithwyr cymdeithasol yn mynychu cyfarfodydd adolygu datganiadau blynyddol dethol (lle roedd gweithiwr cymdeithasol dynodedig). Fodd bynnag, dywedodd nifer o rieni wrthym eu bod am i'w gweithwyr cymdeithasol fynychu neu gymryd mwy o ran yng nghyfarfod eu plentyn. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sicrhau bod dymuniadau'r rhieni a'r plant yn ganolog i benderfyniadau ynghylch pwy sy'n bresennol. Efallai fod cyfleoedd yn cael eu colli ar gyfer adolygu cynllun addysgol a chynllun gofal ar y cyd.
- 3.2. Dim ond traean o'r rhieni a holwyd oedd o'r farn bod y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau addysg, y gwasanaethau iechyd ac asiantaethau eraill wedi cydweithio'n dda er mwyn cynllunio cyfnod pontio eu plentyn o'r ysgol i wasanaethau oedolion neu leoliadau byw â chymorth. Gwnaeth rhai pobl ifanc ddisgrifio anawsterau wrth ymaddasu i

ddull gweithredu gwahanol gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau oedolion, lle roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel oedolion yn rhy sydyn.

- 3.3. Roedd llai na thraean o'r rhieni a holwyd o'r farn bod eu plentyn anabl yn gallu manteisio ar amrywiaeth o weithgareddau y tu allan i'r cartref i'w alluogi i gael hwyl a gwneud ffrindiau. Gwnaeth y grŵp o bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau, ond gwnaethant hefyd nodi rhagor o weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt nad oeddent yn credu eu bod yn hygyrch iddynt am amrywiaeth o resymau.

### **Tystiolaeth ar lefel weithredol:**

- 3.4. Roedd cyfarfodydd mewnol ac amlasiantaethol cadarn yn goruchwyllo'r defnydd o adnoddau i blant â chynllun gofal a chymorth a'r penderfyniadau a wnaed ynghylch lleoliadau ar gyfer plant sydd wedi cael gofal. Roedd ymarferwyr gofal cymdeithasol ac athrawon yn canmol eu cydberthnasau gwaith er mwyn sicrhau dull cydlynol o weithredu ar gyfer plant anabl. Gwnaethant ddweud wrthym fod uwch gyfarfodydd rheoli achos i rannu gwybodaeth am blant ag anghenion gofal cymhleth yn gweithio'n dda pan oeddent yn trefnu'r rhain, ac yn eu galluogi i ddatblygu arfer gorau. Fodd bynnag, rydym yn ystyriol o farn y rhieni a amlinellir uchod a gall ymgynghoriad pellach â rhieni fod yn fuddiol o ran nodi meysydd penodol i'w datblygu ymhellach.
- 3.5. Roedd seicolegwyr addysgol a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydgysylltu â'r gwasanaethau addysg er mwyn helpu plant ifanc anabl i bontio o ofal plant i addysg, gan weithio gydag ysgolion unigol. Roedd trefniadau da ar waith lle roedd gwersi disgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion arbennig yn cael eu cynnal mewn colegau lleol er mwyn hwyluso'r broses bontio ddilynol. Roedd cytundeb ar waith ag un coleg i ehangu'r cynllun presennol i ddarparu lleoliadau gwaith i bobl ifanc anabl a disgrifiwyd cyfleoedd gwaith eraill a grëwyd ar gyfer pobl ifanc anabl i ni.
- 3.6. Roedd pwysau ar dimau gofal a chymorth oedolion wedi arwain at weithwyr cymdeithasol oedolion yn cael eu dyrannu'n hwyr i bobl ifanc a oedd yn pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Roedd hyn yn golygu bod llai o amser ar gyfer cynllunio a meithrin cydberthynas â'r bobl ifanc a'u teuluoedd. Nid oedd y plant a oedd yn gadael ysgolion preswyl a/neu'n symud i drefniadau byw i oedolion, yn cael digon o rybudd am y cynlluniau. Nid oedd hyn yn galluogi dull cydgynhyrchiol o ran y bobl ifanc a oedd yn ddisgwyliedig o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 3.7. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym nad oedd ymarferwyr yn nhimau gofal a chymorth oedolion yn teimlo'n ddigon hyderus i weithio gyda phlant ifanc anabl; mae hwn yn fater y mae angen ei ddatrys a dywedwyd wrthym eu bod yn mynd i'r afael ag ef. Roedd y bobl ifanc a oedd yn pontio i'r tîm

anawsterau dysgu cymhleth i oedolion wedi cael profiad gwell o ganlyniad i'r ffaith bod y prosesau'n gliriach, bod yr ymarferwyr yn fwy hyderus a bod gweithwyr pontio penodol.

- 3.8. Roedd ymwybyddiaeth bod angen i rieni fod yn fwy parod am y posibilrwydd y câi costau eu cyflwyno pan oedd eu plentyn yn pontio i wasanaethau oedolion. Cawn ar ddeall bod paneli amlasiantaethol gweithredol a strategol wedi cael eu datblygu'n ddiweddar er mwyn gwella'r cymorth i'r bobl ifanc sy'n pontio.
- 3.9. Dywedodd rheolwyr iechyd wrthym fod y broses o reoli cyfnodau pontio ym maes iechyd wedi gwella ond bod lle i wella eto. Roedd trosglwyddo pobl ifanc ag anawsterau dysgu difrifol i seiciatryddion oedolion yn gweithio'n well na throsglwyddo plant ifanc ag anawsterau dysgu cymedrol i feddygon teulu. Roedd systemau adolygu ar waith ar gyfer pobl ifanc ag anabledau corfforol difrifol neu anawsterau lluosog er mwyn cydlynu'r amrywiaeth o fewnbynau gan weithwyr meddygol a gofal iechyd proffesiynol. Dywedwyd wrthym fod cyfnodau pontio i bobl ifanc ag anabledau llai difrifol weithiau'n arwain at fwch yn y ddarpariaeth a gellid gwneud mwy i atal argyfyngau rhag datblygu ar gyfer yr oedolion ifanc hyn.
- 3.10. Nid oedd cynorthwyr personol pobl ifanc anabl sydd wedi cael gofal yn weithredol nes bod y bobl ifanc yn 18 oed, er eu bod wedi cael eu dyrannu iddynt pan oeddent yn 16 oed. Bydd y ffaith bod cynorthwydd personol yn cael ei gynnwys ar gam hwyr yn anochel yn effeithio ar y broses o feithrin gydberthynas, ac felly ansawdd y gofal a ddarperir ar yr adeg bwysig hon ym mywyd person ifanc. Dywedwyd wrthym fod cynorthwyr personol yn llai hyderus neu'n llai clir ynghylch eu rôl gyda phlant ifanc anabl. Dylai uwch-reolwyr gadarnhau disgwyliadau clir yn unol â'r cod ymarfer perthnasol a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant.

#### **Tystiolaeth ar lefel strategol:**

- 3.11. Roedd uwch-reolwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydnabod nad oedd ganddynt strategaeth gomisiynu benodol ar gyfer plant anabl yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol sy'n adlewyrchu'r weledigaeth ar gyfer darpariaeth y gwasanaeth. Nid oedd trefniadau cyfredol yn gydlynol ac nid oedd unrhyw uwch-reolwr penodol yn gyfrifol amdanynt. Gallai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wneud mwy i werthuso darpariaeth gwasanaeth yn systematig, mapio anghenion a gweithio gyda darparwyr i gynllunio gwasanaethau.
- 3.12. Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ganolbwyntio eu hymdrechion ar gyflawni dull gweithredu mwy strategol er budd dinasyddion. Mae trefniadau newydd y bwrdd iechyd a'r trefniadau rhanbarthol yn darparu cyfle i wella. Ceir ymrwymiad yn ddiweddar i ariannu gwasanaeth llesiant emosiynol ar y cyd, a fydd yn darparu cymorth i blant a theuluoedd ac yn ategu'r gwasanaeth iechyd meddwl i blant a'r glasoed (CAMHS).

- 3.13. Dywedwyd wrthym fod bylchau yn y ddarpariaeth iechyd i blant ag anawsterau dysgu cymedrol a seibiannau byr i blant ag anghenion meddygol cymhleth. Roedd gormod o bobl am gael gwasanaeth a oedd yn darparu cymorth i rieni reoli ymddygiad eu plentyn. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw therapyddion galwedigaethol wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd ag asesiadau synhwyraidd plant.
- 3.14. Roedd uwch-reolwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cymryd camau cychwynol i ddatblygu dull comisiynu ar y cyd i blant ag anghenion cymhleth drwy'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Mae sbardunau cenedlaethol i'r gwaith hwn ac roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydnabod bod hwn yn faes blaenoriaeth i'w ddatblygu.
- 3.15. Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyd-ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau ariannol am y plant sy'n cael Gofal Parhaus ac nid ydynt yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei ddatrys yn dilyn canllawiau newydd yn 2020. O ganlyniad, mae dod o hyd i ateb mewn perthynas â Gofal Parhaus yn faes blaenoriaeth i'w wella a chawn ar ddeall bod hyn yn flaenoriaeth i'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn 2020. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd ag unrhyw achosion o effaith ar blant i'n sylw yn ystod yr arolygiad.
- 3.16. Roedd uwch-reolwyr yn gweithio gydag asiantaethau partner i roi strategaeth ar waith ynghylch cefnogi addysg, cyflogaeth a hyfforddiant pobl ifanc ac roedd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i ehangu cyfleoedd. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am sicrhau bod mwy o'i bobl ifanc a oedd yn gadael gofal, a phobl ifanc eraill, mewn addysg neu gyflogaeth ac yn parhau ynddynt.
- 3.17. Roedd cynlluniau ar gam cynnar o ran cynyddu'r ystod o opsiynau llety ar gyfer oedolion ifanc anabl sy'n symud i drefniadau llety â chymorth. Roedd hyn yn cynnwys ystyried hyrwyddo trefniadau 'pan fyddaf yn barod' a chynllun 'cysylltu bywydau' ymhellach.

#### **4. Atal ac ymyrraeth gynnar**

**Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau'r canlynol;**

- **Dull strategol a gynlluniwyd i ddarparu cymorth cynnar a gwasanaethau ataliol amserol a chymesur**
- **Caiff plant anabl gymorth mewn cymunedau gwydn i gyflawni eu llawn botensial; i fyw, dysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas**



### **Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:**

- 4.1. Roedd ffeiliau achos yn dangos bod canlyniadau uniongyrchol da ar y cyfan i blant anabl sy'n cael gwasanaethau cymorth cynnar. Roedd y staff a holwyd yn nodi mai'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol oedd yr hyn roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ei wneud orau i blant anabl.
- 4.2. Dywedodd tri chwarter y rhieni a holwyd, yr oedd ganddynt blentyn anabl o dan 5 oed, nad oedd digon o wasanaethu gofal plant yn eu hardal a oedd yn addas ar gyfer eu plentyn.

### **Tystiolaeth ar lefel weithredol:**

- 4.3. Roedd yn ddefnyddiol i deuluoedd nad oedd y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i'r plentyn gael diagnosis penodol i ddefnyddio'r gwasanaeth, am fod plant yn aml yn mynd drwy asesiadau diagnostig gyda'r gwasanaethau iechyd. Roedd y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol wedi datblygu cysylltiadau â'r tîm niwroddatblygiadol er mwyn helpu teuluoedd a oedd yn rhan o'r ddau wasanaeth ac roedd y tîm yn ceisio gwella cysylltiadau â CAMHS. Roedd y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol wedi'i leoli'n dda yn y Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn a gallai'r staff fanteisio ar y seicolegwyr a gyflogir gan yr awdurdod lleol i gael cyngor a chymorth. Roedd yn amlwg bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwasanaeth cymorth cynnar hwn ac roedd iddo ddiben clir. Roedd y data a ddarparwyd i ni yn nodi bod 95% o rieni yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n fwy annibynnol ar ôl bod yn rhan o'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol. Er y gellid casglu barn rhieni mewn ffyrdd mwy cadarn, roedd ein gwybodaeth i gyd yn nodi bod y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol yn wasanaeth effeithiol a gwerthfawr i deuluoedd.
- 4.4. Lle y bo'n briodol, gellid rhoi teuluoedd ar 'gam is' i gael cymorth pellach gan Barnardos, neu 'gam uwch' i'r Tîm Plant Anabl ac roedd systemau mewnlol effeithiol ar waith. Roedd problemau yn ymwneud ag adnoddau wedi cael eu nodi o ganlyniad i lefel y galw am y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol, sydd wedi arwain at deuluoedd yn cael llai o sesiynau gwaith uniongyrchol. Roedd y Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol wedi gwneud rhywfaint o waith gyda brodyr a chwiorydd plant anabl, ond roedd hwn yn cael ei atal dros dro ar adeg yr adolygiad.
- 4.5. Roedd rhestr aros i blant anabl aros dros nos yn y ddau gartref plant cofrestredig sy'n darparu seibiannau byr preswyl. Yn ein harolwg, roedd tua hanner y rhieni a ddywedodd eu bod wedi gofyn am seibiant wedi nodi bod y trefniadau hyn ar waith. Roedd llawer o rieni wedi mynegi eu rhwystredigaeth o ran bod ar restr aros am gyfnod mor hir neu roeddent yn credu bod eu cais am seibiant wedi'i wrthod. Mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sicrhau bod asesiadau trylwyr o blant yn cael eu cynnal pan fydd rhieni yn gwneud cais am seibiant a bod yn hyderus mai dyma'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r pwysau a'r

anghenion a amlinellir. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn adolygu seibiannau byr a bydd ymgynghori â rhieni yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried.

- 4.6. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglenni rhianta i rieni plant ifanc sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig (ASD) neu, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac ymddygiad heriol. Roedd ymarferydd ieuenctid wedi'i benodi i bob ysgol arbennig er mwyn sicrhau bod cynlluniau gwyliau a gweithgareddau eraill yn cael eu cynnal. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn helpu rhieni i ddod o hyd i ddarpariaeth chwarae ar gyfer plant anabl cyn ysgol ac yn darparu cymorth ychwanegol lle y bo angen.
- 4.7. Ymddengys nad oedd ymarferwyr yn y Tîm Plant Anabl yn defnyddio gwefan Dewis i gyfeirio teuluoedd at gymorth cymunedol a chyfluoedd cymdeithasol.

#### **Tystiolaeth ar lefel strategol:**

- 4.8. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi symud y Gwasanaethau Plant ag Anghenion Ychwanegol (o fewn y Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn), y blynyddoedd cynnar a'r timau cyfranogiad ieuenctid ac ymgysylltu i ddod o dan Llesiant a Gwydnwch Cymunedol. Roedd hyn yn golygu bod gwasanaethau yn fwy cyson â'r cynllun corfforaethol er mwyn annog gwydnwch ac annibyniaeth mewn cymunedau. Dylai'r gwaith o ailfodelu gwasanaethau plant anabl arwain at ddull gweithredu cydlynol ar draws timau.
- 4.9. Roedd y prif swyddog gweithredol (CEO) yn glir na ddylai ymyrryd yn gynnar ac atal olygu bod plant anabl yn cael eu hynysu oddi wrth y boblogaeth ehangach o blant. Disgrifiodd y prif swyddog gweithredol y gwelliannau a wnaed o ran hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus a threfniadau trafndiaeth ysgol i blant anabl, gan gynnwys hyfforddiant teithio. Fodd bynnag, mae heriau yn parhau o ran llunio system trafndiaeth gyhoeddus yn ardaloedd mawr y cymoedd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- 4.10. Disgrifiodd y prif swyddog gweithredol y buddsoddiad mewn cyfleusterau hamdden a'r broses o benodi swyddog chwaraeon anabl. Gwnaeth ymarferwyr nodi bod bwlch sylweddol o ran cyfluoedd cymdeithasol i bobl ifanc anabl fel yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a chawn ar ddeall bod hyn yn cael ei ystyried. Roedd yr awdurdod lleol am gysoni ei ddull gweithredu â'r model cymdeithasol anableded y mae Llywodraeth Cymru a'r prif sefydliadau anableded yn eu hyrwyddo, er mwyn gwella cydraddoldeb o ran gallu plant anabl i gael gafael ar weithgareddau cymdeithasol a chwaraeon.

## **Dull**

Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Gwnaethom edrych ar gyfanswm o 45 o ffeiliau achos, a gwnaed gwaith dilynol ar 15 o'r rhain gyda chyfweliadau â gweithwyr cymdeithasol a'r plant a/neu eu teuluoedd. Gwnaethom siarad â rhieni plant anabl a dosbarthu arolwg i gasglu eu barn. Ymatebodd 84 ohonynt i'r arolwg hwn. Gwnaethom siarad â thua 10 o blant yn uniongyrchol.

Gwnaethom gyfweild amrywiaeth o ymarferwyr gofal cymdeithasol a'u rheolwyr, aelodau etholedig ac uwch-swyddogion. Gwnaethom ddosbarthu arolwg i staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant anabl. Ymatebodd 31 ohonynt i'r arolwg hwn.

Gwnaethom edrych ar 27 cofnod o oruchwyliaeth gan reolwr llinell gan naw ymarferydd a rheolwr. Edrychwyd ar sampl o dair cwyn a gwybodaeth gysylltiedig. Adolygwyd gwybodaeth am berfformiad ac amrywiaeth o ddogfennau perthnasol yr awdurdod lleol. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd panel amlasiantaethol perthnasol.

Gwnaethom gyfweild ag amrywiaeth o staff gweithredol a strategol o'r bwrdd iechyd lleol a sefydliadau darparwyr perthnasol.

## **Y Gymraeg**

Gwnaethom sicrhau bod o leiaf un arolygydd a oedd yn siarad Cymraeg ar gael er mwyn darparu'r cynnig rhagweithiol o ran cynnal rhannau o'r broses arolygu yn Gymraeg.

## **Cydnabyddiaethau**

Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: plant, rhieni, staff, rheolwyr, aelodau, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, gan gynnwys cydweithwyr o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.